OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 154 (Cy. 23)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Chwefror 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *16 Chwefror 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 116(1)(**1**) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**2**), a pharagraff 11 o Atodlen 1 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1(2)**

(**1**) *Gweler* y diffiniad o "prescribed".

(**2**) 1992 p. 14; mae diwygiadau i adran 116 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Diwygiad i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992**

**2.** Yn rheoliad 5(8) (Dosbarth H) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992(**4**), ar y diwedd mewnosoder "where and for so long as the person resides with a sponsor under that scheme".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 1.4.2023, gweler **rhl. 1(2)**

*Rebecca Evan*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

14 Chwefror 2023

(**4**) O.S. 1992/552, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/431 (Cy. 100) a 2022/722 (Cy. 160). Mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992 ("Rheoliadau 1992") o ran Cymru.

Mae adran 11 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") yn darparu bod pobl benodol yn cael eu diystyru wrth benderfynu pa un a yw annedd yn ddarostyngedig i ddisgownt ar swm y dreth gyngor sy'n daladwy. Mae'r dosbarthau o bobl sy'n cael eu diystyru wedi eu nodi yn Atodlen 1 i Ddeddf 1992 a rheoliad 5 o Reoliadau 1992.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 5(8) (Dosbarth H) o Reoliadau 1992 i ddarparu nad yw'r diystyriad presennol ond yn gymwys pan fo person sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan Gynllun Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y DU yn preswylio gyda noddwr o dan y cynllun hwnnw.

Ystyriwyd cod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2023.